CYDBWYLLGOR BARGEN DDINESIG PRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD

ARCHWILIAD CYFRIFON BLWYDDYN ARIANNOL 2018/19

RHODDIR YMA HYSBYSIAD O HAWLIAU CYHOEDDUS, yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 fel y'u diwygiwyd:

1. O Ddydd Mawrth 18 Mehefin 2019 i Ddydd Llun 15 Mehefin 2019, rhwng 9.30am a 3.30pm yn gynwysedig (ac eithrio dyddiau Sadwrn a Sul) gall pobl â diddordeb archwilio a gwneud copïau o unrhyw geisiadau rhesymol am ragor o fanylion parthed gwybodaeth a gynhwysir yn y cyfrifon a enwir uchod. Bydd y cyfrifon ar gael i'w harchwilio yn yr adran gyfrifeg, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW.

2. Ar Ddydd Mercher, 31 Gorffennaf 2019 neu wedi hynny, bydd yr Archwilydd a Benodir, Swyddfa Archwilio Cymru, 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ, ar gais etholwr llywodraeth leol neu ei gynrychiolydd ar ran yr ardal y mae'r cyfrifon yn berthnasol iddynt, yn rhoi cyfle i'w holi am y cyfrifon a chyflwyno gwrthwynebiadau:

- Ar y sail bod unrhyw eitem o'r cyfrifon yn groes i'r gyfraith, neu;
- Parthed unrhyw fater sy'n dod i sylw'r archwilydd yn ystod yr archwiliad, y gallai baratoi adroddiad arno er budd y cyhoedd

Ni ellir cyflwyno gwrthwynebiad oni bai bod yr archwilydd wedi derbyn rhybudd ysgrifenedig o flaen llaw, a gwybodaeth am ba sail y gwneir y gwrthwynebiad. Rhaid anfon copi o'r hysbysiad hwn i mi yn y cyfeiriad isod.

Gellir derbyn cwestiynau yn Neuadd y Sir drwy drefniant gyda Swyddfa Archwilio Cymru, 24, Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ (ffôn 02920 320500) – dylid cyfeirio ceisiadau i'r diben hwn i'r cyfeiriad yma.

Paul Orders
Prif Weithredwr
Neuadd y Sir
Glanfa'r Iwerydd
CAERDYDD
CF10 4UW